**Cyfleoedd Diwylliannol ac addysgiadol ar gyfer dysgwyr Iaith Gymraeg cyflin â Deddf ar gyfer Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)**

Barbara E Thomas PFHEA, FRSA, Ymgynghorydd Addysg Uwch
Medi 28ain 2018

Mae Cymdeithas Frenhinol y Celfyddydau (RSA) yn datblygu ei bresenoldeb yng Nghymru ar ddull thematig wedi ei seilio ar y Ddeddf. ar gyfer Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (2015**)** Mewn ymateb i alwad gan yr RSA am 'bencampwyr amcanion' cyflin ag amcanion penodol a osodwyd yn y ddeddf, cyflwynwyd ymholiad ymchwiliol bychan yn ymwneud â'r amcan penodol " ***Cymru o ddiwylliant bywiog a'r Gymraeg yn ffynnu - Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn diogelu diwylliant, treftadaeth a'r iaith Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, a chwaraeon a hamdden"*** fel un agwedd o'r gweithgaredd yma.

Roedd hyn yn gyfle i gysylltu â mudiadau diwylliannol allweddol Cymraeg yng Nghymru sy'n gweithio'n draddodiadol trwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn ymgymryd â gwaith bychan i gasglu data dechreuol sy'n arddangos agweddau penodol o'u gwaith sy'n berthnasol neu'n arfaethedig berthnasol i ddysgwyr Iaith Gymraeg a sut y gallasid cynnal unrhyw gysylltiad cychwynnol gan/ a gyda'r dysgwyr unigol hynny trwy amcanion deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Roedd natur, amseru ac adnoddau'r prosiect yn cyfyngu nifer y cyd ymchwilwyr ac fe gydnabyddir mai safbwynt detholiadol y rhai a wahoddwyd i gymryd rhan ac sydd wedi ymateb i'r prosiect ar ran mudiadau yw hyn. Mae'n cyflwyno peth gwybodaeth ar gyfer gwaith arfaethedig i'r dyfodol ym maes Dysgwyr Cymraeg.

Yn rhinwedd ei rôl trosfwaol yn gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg gyda cholegau a phrifysgolion ledled Cymru ac yn ei ddarpariaeth Addysg Uwch trwy gyfrwng y Gymraeg gwahoddwyd y Coleg Cenedlaethol Cymraeg hefyd i gymryd rhan.

Pwrpas yr ymholiad byr yma oedd coladu adroddiad o'r gweithgareddau a ymgymerir gan y mudiadau a'r grwpiau penodol yma. Bwriadwyd cyflawni hyn drwy gasglu gwybodaeth am gynaladwyedd hir dymor yng nghyswllt ymgysylltiad dysgwr Cymraeg. Dylid nodi bod nifer fawr o grwpiau eraill ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol yn darparu cefnogaeth ffurfiol ac anffurfiol i ddysgwyr ond nid oedd maint na chwmpas yr ymchwiliad yma yn caniatáu ymholiad dyfnach y tro yma.

Anfonwyd holiadur oedd yn canolbwyntio ar strategaeth, cyfrifoldeb, gweithgarwch a chydweithio ac unrhyw gynlluniau cynaladwyedd sy'n elfen hanfodol o'r Ddeddf i'r mudiadau hynny a gytunodd i gymryd rhan. Bwriad hyn oedd cael trosolwg o rôl bwysig diwylliant ac etifeddiaeth Cymraeg yn y gefnogaeth a ddarperir i ddysgwyr Cymraeg. Bydd yr adroddiad yn cael ei rannu rhwng pawb sydd wedi cymryd rhan a thrwy'r RSA. Gobeithir y bydd yr adroddiad yn cynnig cyfle ar gyfer trafodaeth bellach yn ymwneud â'r ymarfer da sydd eisoes yn bodoli a'r posibilrwydd am ragor o gydweithio, croesffrwythloni a pharhad ymrwymiad gyda chymunedau dysgwyr Cymraeg.

Er bod amcanion y Ddeddf yn tanategu'r prosiect ni chwiliwyd am, ac ni thrafodwyd unrhyw agwedd yn ymwneud ag ymrwymiad y mudiadau gyda'r Ddeddf. Yn hytrach

canolbwyntiwyd ar eu rôl wrth iddynt gefnogi ac annog dysgwyr. Gobeithir y bydd yr adroddiad trosfwaol yn darparu darlun o'r gwaith gwerthfawr a wneir gan y grwpiau hyn i gefnogi amcanion y Ddeddf fel y mae'n ymwneud â'r dysgwyr Iaith Gymraeg a rôl allweddol y Coleg wrth gefnogi'r agweddau hynny trwy ei ddarpariaeth astudiaeth trwy gyfrwng y Gymraeg

**Dull**

Yn seiliedig ar gyfyngiadau amser ac adnoddau penderfynwyd cysylltu â'r mudiadau canlynol– Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Cymdeithas Eisteddfodau Bach a Merched y Wawr sy'n gweithio'n benodol trwy gyfrwng y Gymraeg mewn cyd-destun diwylliannol a'r  Coleg Cenedlaethol sy'n darparu cyfleoedd addysg uwch trwy gyfrwng y Gymraeg.

Ystyriwyd nifer o fudiadau eraill ac er nad ydynt yn cael eu cynnwys yng nghanlyniadau'r adroddiad yma dylid ystyried dau yn benodol sy'n gweithio ar lefel Genedlaethol trwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn eu plith Urdd Gobaith Cymru – sy'n gweithio'n benodol gyda phlant a phobl ifanc hyd at 25 mlwydd oed – mae'r gwaith yma a wneir gyda'r dysgwyr trwy gyfrwng fframwaith Eisteddfodau Lleol, Rhanbarthol a Chenedlaethol yn hysbys a hygyrch ar lefel leol a chenedlaethol gyda'r nod o

> *'sicrhau cyfle, trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg, i holl ieuenctid Cymru ddatblygu'n unigolion cyflawn; a'u galluogi i chwarae rhan adeiladol yn y gymdeithas gan feithrin sgiliau personol a chymdeithasol'.*
> http://www.urdd.cymru/cy/amdanom-ni/

Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn gyfrifol am bob agwedd o'r sector Dysgu Cymraeg – o'r cwricwlwm ac adnoddau ar gyfer tiwtoriaid i ymchwil, marchnata, cyfathrebu ac e-ddysgu. Sefydlwyd y Ganolfan mewn ymateb i'r adroddiad Codi Golygon: adolygiad o Gymraeg i Oedolion  Nod y Ganolfan yw *denu dysgwyr newydd at yr iaith a chynyddu'r niferoedd sy'n siarad ac yn mwynhau'r Gymraeg*.https://dysgucymraeg.cymru/amdanom-ni/y-ganolfan-dysgu-cymraeg-genedlaethol/

Cafwyd cysylltiad anffurfiol gyda'r mudiadau canlynol– Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Cymdeithas Eisteddfodau Cymru, Merched y Wawr a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol  gan ofyn am a derbyn eu cytundeb i gymryd rhan. Dilynwyd hyn gan wahoddiad ffurfiol a holiadur byr yn canolbwyntio ar faterion strategaeth, cyfrifoldeb, cyfle, cydweithio ac unrhyw gynlluniau ar gyfer cynaladwyedd (atodiad 1) y diwethaf yn agwedd hanfodol o'r ddeddf;  er mwyn cael trosolwg o'r rôl bwysig sydd gan ddiwylliant a threftadaeth yr iaith Gymraeg  wrth gefnogi Dysgwyr Iaith Gymraeg ynghyd â'r cyfleoedd ffurfiol a geir trwy gynigion addysg uwch y Coleg.

Seiliwyd y penderfyniad i ddefnyddio data ansoddol i hysbysu'r adroddiad prosiect ymchwil yma ar y ffactor canlynol– maint y prosiect, oedd yn golygu bod dull ymchwil ansoddol yn hytrach na dull mesuro yn fwy defnyddiol yng nghyswllt darparu data perthnasol.  Wrth gydnabod y gallai "*credibility of generalisations*" (Denscombe, 2007, t. 45) arwain at beth beirniadaeth, mae data ansoddol yn gallu cynnig haen werthfawr o ddarganfyddiadau sy'n cynrychioli ymatebion unigol gan gyfranogwyr ar ran y mudiadau hynny mewn prosiect o'r maint yma.  Oherwydd bod yr ymchwil yn seiliedig ar yr hyn a ddisgrifir gan Denscombe "*fairly distinct boundaries*" (2007, t. 44), bydd dadansoddiad yr ymchwil yn holistaidd oddi fewn i brofiadau'r cyfranogwyr.

Canolbwyntiodd yr ymchwil ar un agwedd allweddol o gasglu data megis; 5 cwestiwn arolwg yn cynnig dewis ia/na gyda'r cyfle i ychwanegu sylwadau pellach. Penderfynwyd cyfeirio'r  sylwadau adborth at y mudiadau unigol o ystyried y nifer fechan o ymatebwyr a gymerodd ran a gytunodd i hyn.

Dadansoddiad o'r data– tra bod y dadansoddiad yn cynnwys yr holl gyfranogwyr mae'n canolbwyntio ar fudiadau sy'n gweithio'n agos yn ddiwylliannol â gwaith y Coleg fel darparwr cyfleoedd cydnabyddedig dilys ar gyfer astudiaeth trwy gyfrwng y Gymraeg.  Ble ceir tystiolaeth o weithgaredd ar y cyd trwy bwyllgorau er enghraifft - fe nodir hynny.

**Cwestiwn 1 - A oes gan eich mudiad/ grŵp strategaeth i hybu dysgwyr Cymraeg?**

Amlygodd yr holl ymatebwyr fod ganddynt strategaeth ar gyfer galluogi dysgwyr Iaith Gymraeg ond ni chrybwyllodd  y mudiadau diwylliannol hynny yn benodol am strategaeth ffurfiol. Fodd bynnag mae'n amlwg o ymatebion y mudiadau bod parhad yn rhan o'u dull i gefnogi a datblygu dysgwyr iaith Gymraeg. Mae gan y Coleg gynllun Academaidd eglur gyda blaenoriaethau strategol yn arwain at 2020 a thu hwnt sy'n darparu enghreifftiau penodol o sut y gweithredir hyn.

Ceir ffocws cryf yn yr ymatebion o weithio tuag at annog a chynnig cyfleoedd datblygiadol i gymryd rhan mewn gweithgareddau anffurfiol trwy gyfrwng y Gymraeg trwy gydol  y flwyddyn:

> *'Rydym yn cyd-weithio â sefydliadau sy'n weithgar yn ardal yr Eisteddfod i ddarparu rhaglen o gyrsiau blasu a gweithgareddau dysgu anffurfiol drwy gydol y flwyddyn er mwyn denu rhagor o bobl i siarad Cymraeg ac i ymweld â'r Eisteddfod'.*
> *(Eisteddfod Genedlaethol Cymru )*

Tra bod yr Eisteddfod Genedlaethol yn ddigwyddiad blynyddol a gynhelir mewn ardaloedd gwahanol ar y naill rhwng Gogledd a De Cymru ym mis Awst bob blwyddyn mae gan Gymdeithas Eisteddfodau Cymru orchwyl blynyddol ledled Cymru ac fe ddarparwyd enghreifftiau o'r digwyddiadau hynny:

> *'5 yn cael eu cynnal yn ystod y flwyddyn (Eisteddfod Dafarn y Dysgwyr Abertawe, Eisteddfod y Dysgwyr Shir Gâr, Powys a Cheredigion; Eisteddfod y Dysgwyr Gogledd Ddwyrain Cymru, Eisteddfod y Dysgwyr Gogledd Orllewin Cymru, Eisteddfod Dysgwyr Canolfan Morgannwg)' (Cymdeithas Eisteddfodau Cymru )*

Ar eu gwefan mae Merched y Wawr yn datgan mai ei bwrpas o fewn ei gyfansoddiad yw:

> *'hybu unrhyw achos er budd merched yng Nghymru a ystyrir trwy gyfraith yn elusennol ar hyn o bryd neu ar unrhyw adeg yn y dyfodol, ac yn arbennig i rymuso addysg gyhoeddus ac i hyrwyddo diwylliant Cymreig, addysg a'r celfyddydau yng Nghymru trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg'.*
> *(Wefan Merched y Wawr – 16eg Awst 2018*)

Felly mae Merched y Wawr yn cyflwyno dull trosfwaol a holistaidd o ymgysylltu a datblygu cyfleoedd i ddysgwyr Cymraeg gyda gweithgareddau parhaol. Cynhelir cystadlaethau penodol yn eu digwyddiad blynyddol bob haf sy'n galluogi cydnabyddiaeth a chynigir cyfleoedd pwysig i ddysgwyr i ymgymryd â rolau oddi fewn y mudiad ac fe gydnabyddir eu datblygiad yng Nghylchgrawn y Wawr sy'n rhannu'r wybodaeth i gynulleidfa ehangach

> *'Rydym yn annog pob un o'n canghennau a chlybiau i gynnig noson arbennig neu ddigwyddiad i'r dysgwyr a hefyd yn cynnig nifer o wirfoddolwyr ar gyfer gweithgareddau fel sesiynnau siarad'.*
> *(Merched y Wawr)*

Yn ei ail Gynllun Academaidd y Coleg a gyhoeddwyd yn 2017 fe amlygwyd blaenoriaethau penodol hyd y flwyddyn 2020 a thu hwnt i sicrhau addysg uwch o'r radd flaenaf trwy gyfrwng y Gymraeg gan adeiladu ar ei seiliau cryf gwreiddiol yn y Cynllun Academaidd 2012 trwy:

> *'ganolbwyntio ar sicrhau addysg uwch o'r radd flaenaf, gyda'r myfyrwyr wrth galon y broses addysgiadol'.(Coleg Cymraeg Cenedlaethol)*

Mae gan y Coleg gyfrifoldeb hefyd i ddatblygu rhagor o gyfleoedd astudio trwy gyfrwng y Gymraeg yn cynnwys cefnogaeth ar gyfer datblygu cwrs, ysgoloriaethau ar gyfer myfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg a thrwy hynny gefnogi a galluogi siaradwyr Cymraeg ar gyfer y dyfodol:

> *'Trwy gydweithio â phrifysgolion Cymru, mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn sicrhau ac yn datblygu rhagor o gyfleoedd astudio cyfrwng Cymraeg i fyfyrwyr Cymru'.*
> *(Coleg Cymraeg Cenedlaethol)*

Yng nghyd-destun y mudiadau a'r Coleg mae gorchwyl ac uchelgais eglur i gefnogi, gwella a datblygu sgiliau iaith trwy gyfrwng cyfleoedd diwylliannol ac addysgiadol.

**C2 – a yw eich mudiad/grŵp yn diffinio unrhyw GYFRIFOLDEB at ddysgwyr Cymraeg?**

Amlinellir y dulliau penodol yng nghyswllt hyn oddi fewn i'r criteria trosfwaol sy'n sail i rôl pob mudiad. Mae'r enghreifftiau yn cynnwys cynlluniau'r Eisteddfod Genedlaethol i fynychu a gweithio gydag ysgolion cynradd yng Nghaerdydd er mwyn annog a datblygu'r defnydd o eirfa wyddonol Gymraeg a:

> *'Mae gan ddysgwyr Cymraeg gyfle i wirfoddoli a gweithio yng nghaffi Ardal y Dysgwyr yn yr Eisteddfod. Rydym yn annog dysgwyr Cymraeg i fod yn aelodau o Bwyllgorau Lleol yr ardal'. (Eisteddfod Genedlaethol Cymru)*

Yn y gorffennol mae'r Gymdeithas Eisteddfodau wedi cynnal gweithdai fel agwedd o'u gwaith i annog ymgysylltiad dysgwyr ac yn amlygu eu cynlluniau i'r dyfodol yn eu hymatebion i C3

*'Yn y gorffennal mae'r Gymdeithas wedi trefnu a chynnal gweithdai amrywiol i Ddysgwyr – cerddoriaeth gorawl ac hefyd Llenyddol' (Cymdeithas Esiteddfodau Cymru)*

Mae nifer o gyfleoedd ar gael yn y dull a weithredir gan Ferched y Wawr i gefnogi dysgwyr yn cynnwys anogaeth i ymuno **â** phwyllgorau a digwyddiadau sy'n canolbwyntio'n benodol ar ddysgwyr ac i wirfoddoli cefnogaeth yn y sesiynau Cymraeg eu hiaith:

*'Rydym yn cynnal cystadlaethau arbennig ar gyfer dysgwyr yn flynyddol ynghyd â seremoni yn ein Gwyl Haf. Rydym hefyd yn rhoi pob cefnogaeth i ddysgwyr ymgymryd â swyddi o fewn ein helusen. Mae gennym le penodol o fewn ein cylchgrawn ar gyfer ein dysgwyr disglair.'*
*(Merched y Wawr)*

Mae cyfleoedd a chyfrifoldeb am addysg uwch trwy gyfrwng y Gymraeg fel rhan o brofiad y myfyrwyr yn 'raison d'etre' y Coleg ac fe'i rheolir trwy ddatblygiad cynllunio disgyblaeth i sicrhau datblygiad deunydd academaidd o'r radd flaenaf a thrwy hynny ddarparu cyfleoedd unigryw i fyfyrwyr reoli eu dyfodol mewn gweithle dwyieithog. Felly seilir cyfleoedd ar y cyfrifoldebau a amlinellir gan y Coleg ynglŷn â hyn:

*'Galluogi, cefnogi a hybu cyfleoedd astudio i fyfyrwyr Cymraeg yw raison d'être y Coleg.'*
*(Coleg Cymraeg Cenedlaethol)*

Er mwyn cyflenwi'r agweddau hynny a amlinellir yn eu Cynllun Academaidd mae'r Coleg yn datblygu cynlluniau ac adnoddau pwnc ar gyfer meysydd astudiaeth gydnabyddedig i gefnogi eu cynnig addysgiadol.:

*'Gwneir hyn drwy trafodaethau yn y paneli pynciol, sy'n cynnwys cynrychiolaeth o academyddion o bob sefydliad'. (Coleg Cymraeg Cenedlaethol)*

Mae sicrhau fod profiad myfyrwyr wrth wraidd y datblygiadau hyn yn cyd-fynd **â** ffocws y Coleg ar sut y mae addysg uwch trwy gyfrwng y Gymraeg:

*'yn rhoi profiadau unigryw i'r dysgwyr ac yn eu harfogi â'r gallu, yr hyder a'r sgiliau i weithio mewn cenedl ddwyieithog yn y dyfodol.'*

**Cwestiwn 3 - a ydych yn cysylltu â, a hybu CYFLEOEDD i ddysgwyr**?

Amlygir ystod eang ac eglur o gyfleoedd i ymgysylltu â dysgwyr gan yr ymatebwyr. Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau ymarferol yn ymwneud â phrofiadau diwylliannol a chymunedol ochr yn ochr â phrofiadau addysgiadol ffurfiol a gynnir trwy'r Coleg. Mae enghreifftiau yn y gymuned yn cynnwys:

*'Bydd y gweithdy celf a chreu yr e-lyfr yn fuddiol i ddysgwyr Cymraeg er mwyn ehangu eu gerifa gwyddonol am y gofod. Byddant hefyd yn cael eu gwahodd i ardal y dysgwyr yn yr Eisteddfod, lle bydd modd iddynt ymarfer eu Cymraeg a phrofi'r iaith yn fyw o'u cwmpas.'(Eisteddfod Genedlaethol Cymru)*

Ar lefel genedlaethol, y prif gyfle i arddangos mewnbwn ac ymrwymiad y dysgwyr Cymraeg i'r iaith a'u cymunedau yw cystadleuaeth flynyddol Dysgwr y Flwyddyn a gynhelir yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol. Mae'r ffaith fod yr Eisteddfod yn symud i leoliadau gwahanol yn flynyddol yn sicrhau yr amlygir y gystadleuaeth i gynulleidfa wahanol bob blwyddyn:

> *'Mae annog pobl i fynd ati i ddysgu a defnyddio'u Cymraeg yn rhan greiddiol o neges yr Eisteddfod Genedlaethol wrth ymweld ag unrhyw ardal, ac mae'r gystadleuaeth hon yn gyfle i ddathlu llwyddiant ac ysbrydoli eraill i fynd ati i ymgeisio yn y dyfodol' (Eisteddfod Genedlaethol Cymru)*

Wrth wraidd y dull yma mae dymuniad Cymdeithas Eisteddfodau Cymru i gynnal cystadlaethau wedi eu hanelu'n benodol at ddysgwyr led led Cymru sydd wedi arwain at ddysgwyr yn cymryd rhan mewn cystadlaethau prif ffrwd yn yr eisteddfodau dysgwyr lleol ac/ neu mynychu'r Eisteddfod Genedlaethol gyda chanlyniadau nodedig.

> *'Erbyn hyn mae rhai 'dysgwyr' yn cystadlu mewn cystadlaethau cyffredinol – ac yn wir, mae un wedi ennill nifer o gadeiriau erbyn hyn. Rydym yn ceisio danfon rhestr o gystadlaethau i grwpiau dysgwyr dros y wlad'. (Cymdeithas Eisteddfodau Cymru)*

Yng nghyd-destun Merched y Wawr mae'r ffocws ar hyrwyddiad y dysgwyr Cymraeg trwy eu gweithgareddau trosfwaol sy'n amlygu ymhellach eu dull holistaidd.:

> *'Rydym hefyd yn hyrwyddo pan mae dysgwyr yn ymgymryd a swyddi allweddol o fewn ein mudiad, ac yn annog eraill. Mae ein stondin bob blwyddyn yn yr Eisteddfod yn agos at Maes D a cynhaliwn weithgareddau yno'.(Merched y Wawr)*

Oherwydd ei rôl yng nghyswllt darparu cyfleoedd sy'n cynnig credyd trwy gyfrwng y Gymraeg mae'r Coleg yn defnyddio dull mwy ffurfiol. Mae hyn yn cynnwys cofrestru gyda'r Coleg lle rhoddir gwybodaeth am gyfleoedd a datblygiadau, mynediad at adnoddau a chynlluniau penodol. Mae'r rhestr ganlynol yn cwmpasu agweddau o'r cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg a cheir disgrifiadau llawn ar wefan y Coleg:

- Ysgoloriaethau ar gyfer astudiaeth israddedig, ol raddedig Meistr a Doethuriaeth
- Profiad Gwaith
- Tystysgrif Sgiliau iaith tystysgrif wedi ei hachredu gan CBAC
- Cynllun Llysgennad

Mae'r Bwrdd Academaidd yn sicrhau perchnogaeth gwaith a gweithdrefnau'r Coleg ac mae hyd at 8 aelod o'r Bwrdd yn gynrychiolwyr myfyrwyr. I sicrhau cynrychiolaeth ar baneli pwnc gwahoddir mudiadau i enwebu myfyrwyr. Cynigir hyfforddiant a chefnogaeth i fyfyrwyr er mwyn sicrhau bod eu llais yn ganolog i orchwyl y Coleg.

Mae technoleg ac adnoddau yn ffactorau allweddol ym mhrofiad y Coleg ar gyfer myfyrwyr. Mae hyn yn cynnwys y Gwerddon sef e-gyfnodolyn academaidd cyfrwng Cymraeg sy'n cynrychioli ystod o feysydd a chronfa o waith ysgolheigaidd at

ddefnydd myfyrwyr ymchwil ac academyddion cyfrwng Cymraeg. Defnyddir Cyfrygnau Cymdeithasol yn ganolog gyda swyddogion pwnc yn cyfathrebu gyda myfyrwyr a staff academaidd.

Mae'r rhaglen Sgiliau Ymchwil yn cefnogi myfyrwyr ymchwil trwy gyfrwng y Gymraeg ac academyddion ar gychwyn gyrfa a dyma'r unig raglen o'i bath sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r gynhadledd ymchwil trwy gyfrwng y Gymraeg yn rhan o raglen hyfforddiant Y Coleg ar gyfer staff academaidd ac ymchwil ac mae'n fodd i academyddion iaith Gymraeg newydd gyflwyno eu hymchwil i'w cyfoedion a thrwy hynny adeiladu gwaith ysgolheigaidd pellach trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Cwestiwn 4– a ydych yn ymwneud â gweithgareddau CYDWEITHIOL gyda mudiadau neu grwpiau eraill yng Nghymru ynghlwm â dysgwyr Cymraeg?**

Mae pob ymatebwr yn cysylltu'n gydweithiol gyda mudiadau perthnasol i'w hamcanion a'u dulliau. Gall hyn fod ar lefel genedlaethol, ranbarthol neu leol ac wedi eu cyfunioni i agweddau penodol o'u gwaith, ond ym mhob achos dysgwyr yw'r agwedd allweddol o'r cydweithio hwnnw. Mae hyn yn cynnwys cyd berthynas gyda mudiadau eraill i gyfoethogi cyfleoedd dysgu a gwirfoddoli yng ngwaith y mudiadau hynny.

> *'Rydym yn cydweithio â Chanolfan Dysgu Cymraeg , Prifysgol Caerdydd a Paralel.cymru er mwyn denu mwy o ddysgwyr Cymraeg i'r Eisteddfod. Rydym yn cydweithio â'r sefydliadau a'r mudiadau yma er mwyn cyfoethogi amserlen weithgareddau y dysgwyr yn ystod wythnos yr Eisteddfod'. (Eisteddfod Genedlaethol Cymru)*

Ehangodd yr Eisteddfod Genedlaethol ei gyrhaeddiad tu hwnt i'w gymunedau iaith Gymraeg arferol i weithio gyda :

> *'Prifysgol Metropolitaidd Caerdydd i greu Tlysau Dysgwr y Flwyddyn 2018. Bydd hyn yn agor drws creadigol yr Eisteddfod i fyfyrwyr di-Gymraeg ac yn eu denu i ymddiddori mewn diwylliant Cymreig'. (Eisteddfod Genedlaethol Cymru)*

Ystyrir cyfleoedd ymarferol megis:

> *'Trefnu gweithdai ar gyfer llefarwyr (h.y. sut i ddewis darn, sut i lwyfannu a.y.y.b.)' (Cymdeithas Eisteddfodau Cymru)*

Mae Merched y Wawr yn amlinellu eu dull cydweithredol trosfwaol gan gymryd rhan mewn ystod eang a gwahanol o weithgareddau ar draws Cymru yn cynnwys:

> *'Gwirfoddoli o fewn cylchoedd meithrin, yn gwrando ar blant yn darllen mewn rhai ysgolion, yn stiwardio a chynorthwyo mewn eisteddfodau'r Urdd, yn cynnig cyfleoedd i bobl ifanc i ddod i ddiddanu ein haelodau ac yn cydweithio gyda'r canolfannau iaith ac eleni Efa Gruffydd Jones ydy ein siaradwraig wadd yn ein Cyfarfod blynyddol'.*
> *(Merched y Wawr)*

Ymgorfforir cyfleoedd addysgiadol y Coleg yn null y Coleg o gydweithio gyda phrifysgolion Cymru ac :

*'ymgysylltu â myfyrwyr, darlithwyr a staff cefnogol drwy ganghennau, paneli pwnc, pwyllgorau gwaith, amryw o brosiectau (ee gweithgareddau cydweithredol) a chynlluniau penodol'. (Coleg Cenedlaethol Cymraeg)*

Mae enghreifftiau o weithgaredd ar y cyd yn cynnwys darpariaeth modiwl a gefnogir yn ariannol i alluogi myfyrwyr i gyfarfod â, a chael mynediad at ddarlithwyr arbenigol o fudiadau eraill.

Mae datblygiadau i'r dyfodol yn cynnwys cynhwysiad Colegau Addysg Bellach yng ngwaith a chwmpas y Coleg trwy ddatblygiad cynllun gweithredol ffurfiol ac ymweld ag ysgolion ar draws Cymru i rannu gwybodaeth ynglŷn â chyfleoedd a chefnogaeth ar gyfer astudio trwy gyfrwng y Gymraeg.

Ar hyn o bryd mae prosiectau wedi'u hariannu gan y Coleg yn targedu disgyblion ysgol sef

*'cynllun <u>Y Gymraeg ar Daith</u> (i geisio cynyddu nifer y disgyblion sy'n astudio Safon Uwch a gradd yn y Gymraeg), ac ysgolion haf Ieithoedd Modern a Chymraeg Ail Iaith (i roi blas ar fywyd prifysgol i ddisgyblion Bl 12)'. (Coleg Cenedlaethol Cymraeg)*

Mae gwaith ar y gweill gyda phum prifysgol Cymru i ddarparu llwybr trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer Tystysgrif Ôl Raddedig Dysgu mewn Addysg Uwch – dull tystysgrifedig wedi ei mewnosod oddi fewn i ddatblygiad Addysg Uwch ar draws y DU ar gyfer staff academaidd.

Mewn ymateb i gais gan Lywodraeth Cymru mae'r Coleg hefyd yn gweithio gyda'r sefydliadau hynny sy'n darparu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon (HCA) i gefnogi cymhwysiad ar gyfer Tystysgrif Cymhwysedd Ieithyddol ar gyfer Athrawon ac mewn cydweithrediad a'r darparwyr HCA hynny mae Cynllun Colegau Cymru yn fframwaith ar gyfer dysgu Cymraeg fel ail iaith i'r rhai hynny:

*'sy'n dilyn cyrsiau hyfforddiant athrawon cynradd (BA/BAdd a TAR) ac sy'n arwain at Statws Athro Cymwysedig [SAC]'. (Coleg Cenedlaethol Cymraeg)*

Cydlynir Cynllun Cymraeg Gwaith mewn Addysg Uwch dan nawdd Canolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol gyda'r bwriad:

*'o roi'r cyfle i staff addysg uwch ddatblygu eu sgiliau iaith er mwyn eu galluogi i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg yn eu gwaith'. (Coleg Cenedlaethol Cymraeg)*

Er efallai nad yw'r gweithgareddau cydweithredol a ymgymerir gan y mudiadau gwahanol a'r coleg ei hun yn uniongyrchol gyflin - ceir meysydd o drawsgroesiad megis gweithio gyda Canolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol trwy gyrsiau a gwaith pwyllgorau a phresenoldeb cydweithredol yr holl fudiadau a'r Coleg yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn flynyddol.

**Cwestiwn 5 – a oes cynlluniau gennych am GYNALADWYEDD datblygiad dysgwyr Cymraeg i'r dyfodol?**

Cyflwynodd pob mudiad enghreifftiau o'r dull ar gyfer cynaladwyedd yn cynnwys dulliau ymarferol trwy allbynnau prosiectau a chodi ymwybyddiaeth yn cynnwys:

*'Bydd yr e-lyfr a'r gwaith gweithdy Celf yn cael eu dychwelyd yn ôl i'r ysgolion Saesneg fel eu bod yn gallu cael eu defnyddio fel adnoddau addysgiadol. Wrth ddenu'r plant a'u teuluoedd i'r Eisteddfod, bydd modd iddynt ddysgu am ddiwylliant Cymreig a chael mwy o wybodaeth am wersi Dysgu Cymraeg' (Eisteddfod Genedlaethol Cymru).*

Yn benodol i Eisteddfod 2018 a gynhaliwyd ym Mae Caerdydd roedd:

*'seisynnau blasu'r Eisteddfod i fusnesau lleol y bae er mwyn hybu'r defnydd o'r iaith Gymraeg ac i godi ymwybyddiaeth ynglŷn â'r iaith o fewn y byd busnes lleol'. (Eisteddfod Genedlaethol Cymru)*

Yn dilyn gweithdai mae Cymdeithas Eisteddfodau Cymru yn casglu adborth fel dull i gael gwybodaeth am effeithiolrwydd y digwyddiadau hynny a'u galluogi i ddilyn y dysgwyr hynny sy'n mynychu gweithdai ac sydd efallai yn mynd ymlaen i gystadlu:

*'– drwy edrych mas am yr enwau mewn canlyniadau rydym yn derbyn gan yr Eisteddfodau Lleol' (Cymdeithas Eisteddfodau Cymru)*

Mae Merched Y Wawr yn cynnwys cynllunio hir dymor yn eu dull gyda gweithgareddau blynyddol a gynhelir mewn canghennau lleol i gydgysylltu gyda dysgwyr. Neilltuir gofod ar gyfer dysgwyr yn eu cylchgrawn sy'n eu galluogi i weld cyhoeddi eu gwaith yn y Gymraeg am y tro cyntaf ac fe gynhelir cystadlaethau penodol ar gyfer dysgwyr yng ngŵyl yr haf gyda seremoni i ddathlu eu llwyddiannau. Agwedd allweddol o gynaladwyedd yw:

*'rhoi pob cymorth posibl i ferched sy'n ymaelodi ac sy'n ddysgwyr i gymryd swyddi wedi iddynt gael digon o hyder i wneud hynny ac yn cynorthwyo gyda'i datblygiad proffesiynnol ar lafar ac yn ysgrifenedig. Mae gennym nifer o aelodau sy'n gwirfoddoli i gynorthwyo dysgwyr ar draws Cymru e.e. Sessiynnau Siarad'. (Merched y Wawr)*

Mae cymhellion ychwanegol yn cynnwys dyfarnu gwobrau i'r rhai sy'n cyrraedd rownd derfynol cystadleuaeth dysgwr Cymraeg y flwyddyn. Gyda'r Cyfarwyddwr yn eistedd ar Bwyllgor Dysgu Cymraeg Cenedlaethol datblygir dolen gyswllt i fudiadau eraill a'r Coleg. Fel mudiad sy'n annog a chynnwys dysgwyr yn ei weithgaredd mae Merched yn Wawr yn gwneud:

*'pob ymdrech posibl i sicrhau fod dysgwyr yn mwynhau cymdeithasu ar ein stondinau yn y Sioe a hefyd yn yr Eisteddfodau'. (Merched y Wawr)*

Sicrheir bod cynaladwyedd yn rhan o gyfrifoldebau ffurfiol y Coleg o fewn ei Gynllun Academaidd ' 'Tuag at 2020 a thu Hwnt' trwy osod y blaenoriaethau ar gyfer y tymor yma a'r ddegawd ddilynol:

*'Mae'r rhain yn cynnwys ystyried datblygiadau ym maes technoleg addysgiadol, dysgu hyblyg a chymwysterau amrywiol, ehangu mynediad a llwybrau dilyniant.*

> *Bydd yr holl Gynlluniau Pwnc yn mynd i'r afael â chynaliadwyedd o ran sut i geisio sicrhau nifer hyfyw o ddarlithwyr a myfyrwyr i gynnal darpariaeth cyfrwng Cymraeg' (Coleg Cymraeg Cenedlaethol).*

Mae'r Coleg yn symud oddi wrth y model wreiddiol sef darpariaeth addysg uwch a nawdd darlithio trwy ei Gynllun Staffio Academaidd tuag at grantiau pwnc ble:

> *'bydd y Coleg yn sefydlu cytundebau gyda sefydliadau unigol yn nodi cyfres o dargedau i'w cyflawni ac ymrwymiadau i'w cynnal gan y sefydliad. Bydd y model yma yn gosod mwy o gyfrifoldeb ar y sefydliadau i wreiddio darpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn adrannau ac ysgolion academaidd ac yn cynyddu cynaliadwyedd yn y pen draw'. (Coleg Cenedlaethol Cymraeg)*

**Casgliad**
Mae'r ymatebion yn rhoi tystiolaeth glir o'r ffocws ar ymgysylltiad â Dysgwyr Cymraeg a'r datblygiad o fewn pum maes yr ymchwil.

**1. Strategaeth**
Mae gan yr holl ymatebwyr strategaeth sy'n gweddu i'w sefyllfa ar gyfer dysgwyr iaith Gymraeg ac fe gynhwysir parhad yn eu dulliau. Er bod y strategaethau hynny yn llai ffurfiol na rhai'r Coleg mae ganddynt, er hynny, orchwyl eglur a ffocws o fewn eu rolau i alluogi, datblygu a chefnogi dysgwyr Cymraeg.

**2. Cyfrifoldeb**
Mae agweddau o gyfrifoldeb wedi eu ffocysu'n eglur yng nghriteria trosfwaol pob mudiad ac yng nghyswllt y Coleg mae profiad y myfyriwr yn ganolog i'w gyfrifoldebau.

**3. Cyfle**
Cynigir ystod eang o gyfleoedd sydd ynghlwm **â** hyrwyddiad holistaidd dysgwyr Cymraeg trwy fudiadau ac yn fwy ffurfiol trwy'r cyfleoedd a amlinellir gan y Coleg.

**4. Cydweithrediad**
Mae'r ymatebwyr yn disgrifio cydweithrediad gyda mudiadau sy'n berthnasol i'w hamcanion a'u hymdriniethau. Gall rhain fod ar lefel genedlaethol, rhanbarthol neu leol ac maent yn ymwneud ag agweddau penodol o'u gwaith, ond ym mhob achos mae dysgwyr yn ganolog i'r cydweithrediad yma. Mae'r Coleg yn amlinellu agweddau o waith cydweithredol oddi fewn i'r sector Prifysgol yng Nghymru yn cynnwys datblygiad a throsglwyddiad a chydweithrediad i'r dyfodol gyda'r sector ôl 16.

**5. Cynaladwyedd**
Mae ymdriniaeth cynaladwyedd yn cynnwys ymdriniaethau trwy allbynau prosiectau a chodi ymwybyddiaeth, cynllunio tymor hwy a chymhellion ar gyfer dysgwyr tra bo cynaladwyedd yn ganolog i flaenoriaethau hir dymor y Coleg.

Tra y gallai mudiadau fod â nifer o staff cyflogedig, mae'r gymuned o unigolion sy'n cefnogi rol ganolog y mudiadau hynny yn allweddol i weithrediad eu cynlluniau, strategaeth a chynaladwyedd ac i sicrhau dyfodol yr iaith Gymraeg a'u hymrwymiad hir dymor i holl agweddau o fywyd diwyllianol trwy gyfrwng y Gymraeg.

Er mai'r Coleg yw'r darparwr allweddol sy'n sicrhau addysg bellach Gymraeg o'r radd flaenaf wrth gefnogi a datblygu'r sgiliau sydd angen yn y Gymru ddwyieithog, mae'n amlwg hefyd na ellir tanbrisio rôl y mudiadau a'r Coleg yn eu gwaith pwysig o alluogi dysgwyr Cymraeg i ddatblygu yn siaradwyr Cymraeg y dyfodol.

Mae'r cipolwg yma ar weithgareddau ar draws llwyfan ffurfiol ac anffurfiol o weithgaredd dysgwyr Cymraeg yn rhoi darlun o ymgysylltiad eang ac ymroddedig i alluogi dysgwyr Cymraeg y dyfodol. Gallasai hyn roi cychwyn ar ymgysylltiad dwysach gyda mudiadau ar draws Cymru i gasglu data a chynnig tystiolaeth sy'n hysbysu amcan y Ddeddf y mae'r prosiect yma wedi ei seilio arni '***Cymru o ddiwylliant bywiog a'r Gymraeg yn ffynnu - Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn diogelu diwylliant, treftadaeth a'r iaith Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, a chwaraeon a hamdden***'. Er bod y prosiect wedi edrych yn benodol ar ddiwylliant a chyfleoedd addysgiadol mae potensial hir dymor i ennill gwybodaeth ychwanegol y gallasid ei ddefnyddio i greu effaith bositif ar gyfer hysbysu targed Llywodraeth Cymru i feithrin miliwn o siaradwyr Cymraeg.

Hoffwn ddatgan fy niolch i'r unigolion hynny a gymerodd ran yn yr ymchwil ar ran eu mudiadau, am eu parodrwydd i gymryd rhan ac i ddarparu haen werthfawr o ddata ansoddol sy'n hysbysu'r adroddiad yma ac i ddiolch i'r RSA am y cyfle i ymgymryd a'r prosiect hwn.

**Cyfeiriadau**

Denscombe, M (2007) *The Good Research Guide for Small Scale Social Research Projects.* 3ydd arg. Buckingham: Open University Press

http://www.urdd.cymru/en/about-us/ (28ain Awst 2018)

https://learnwelsh.cymru (3dd Medi 2018)

http://www.urdd.cymru/en/about-us/
( 5ed Mehefin 2018)

http://www.colegcymraeg.ac.uk/en/research/researchscholarships/
(17eg Awst 2018)

https://learnwelsh.cymru/about-us/the-national-centre-for-learning-welsh/ (28ain Awst 2018)

http://www.colegcymraeg.ac.uk/en/results/?q=language%20skills%20certificate (28ain Awst 2018)

http://www.colegcymraeg.ac.uk/cy/astudio/sgiliauiaith/tystysgrifsgiliau/ (3dd Medi 2018)

http://www.colegcymraeg.ac.uk/cy/astudio/trwyrgymraeg/profiadgwaith/ (3dd Medi 2018)

http://www.colegcymraeg.ac.uk/en/results/?q=language%20skills%20certificate (28ain Awst 2018)

http://www.colegcymraeg.ac.uk/cy/astudio/llysgenhadon/(accessed (28ain Awst 2018)

http://www.colegcymraeg.ac.uk/cy/ymchwil/cynhadleddymchwilcyfrwngcymraeg/
(3dd Medi 2018)

http://www.colegcymraeg.ac.uk/cy/amdanomni/newyddion/pennawd-10591-cy.aspx
(3dd Medi 2018)

http://www.colegcymraeg.ac.uk/cy/astudio/cymraeggwaithmewnaddysguwch/
(3dd Medi 2018)

**Atodiad 1**

RSA
Fellowship

**Y Ddeddf Llesiant ar Gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Mae Cymdeithas Frenhinol y Celfyddydau (RSA) yn datblygu ei bresenoldeb yng Nghymru ar themâu wedi eu selio ar y Ddeddf. Fel cymrawd o'r RSA ac mewn ateb i alwad am 'goal champions' datblygais y prosiect canlynol yn seiliedig ar nod penodol ynghlwm a themâu'r ddeddf sef " ***Cymru o ddiwylliant bywiog a'r Gymraeg yn ffynnu - Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn diogelu diwylliant, treftadaeth a'r iaith Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, a chwaraeon a hamdden"***

Drwy ymrwymiad yr RSA â'r ddeddf mae cyfle yma i gysylltu â nifer o fudiadau a grwpiau cyfrwng Cymraeg allweddol sydd yn gweithio'n benodol o draddodiad ieithyddol Cymreig gyda'r bwriad o gasglu data cynnar sy'n arddangos elfennau penodol o'u gwaith sy'n berthnasol neu gallasai fod yn berthnasol i ddysgwyr Cymraeg a sut mae sicrhau fod unrhyw ymrwymiad dechreuol gyda'r unigolion hynny yn gynaliadwy.

Pwrpas yr ymholiad byr yma yw cynhyrchu adroddiad trosfwaol o'r gweithgareddau a ymgymerir gan y gwahanol fudiadau a grwpiau diwylliedig. Cyflenwir hyn drwy gasglu gwybodaeth ynglŷn â strategaeth, cyfrifoldeb, gweithgaredd, cydweithio a sut y gall hyn hysbysu'r potensial am gynaladwyedd hir dymor drwy ymrwymiad a'r dysgwyr .

Atodir holiadur byr i'r gwahoddiad yma sydd yn canolbwyntio ar faterion strategaeth, cyfrifoldeb, gweithgarwch a chydweithio ac unrhyw gynlluniau sy'n sicrhau cynaladwyedd sy'n elfen hanfodol o'r Ddeddf er mwyn deall rôl bwysig diwylliant ac etifeddiaeth yn y gefnogaeth a ddarperir i ddysgwyr Cymraeg.

Bydd yr adroddiad yn cael ei rannu rhwng pawb sydd wedi cymryd rhan a thrwy'r RSA. Gobeithir y bydd yr adroddiad yn cynnig cyfle ar gyfer trafodaeth bellach yn ymwneud â'r ymarfer da sydd eisoes yn bodoli a'r posibilrwydd am ragor o gydweithio, croesffrwythloni a pharhad ymrwymiad gyda'r cymunedau dysgwyr Cymraeg

Defnyddir unrhyw wybodaeth a gynigir yn ddienw os na fyddwch yn dynodi fel arall.

Gwerthfawrogir yn fawr eich cymorth a'ch atebion i'r ymholiad

Barbara E Thomas

Barbara E Thomas PFHEA, FRSA
Ymghynghorydd Addysg Uwch
Chwefror 2018

b.e.thomas@btinternet.com

**Y Ddeddf Llesiant ar Gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Holiadur

| | | |
|---|---|---|
| C1 – A oes gan eich mudiad/ grŵp strategaeth i hybu dysgwyr Cymraeg? | Oes | Nac oes |
| Sylwadau ychwanegol | | |
| C2 – a yw eich mudiad/grŵp yn tanlinellu unrhyw gyfrifoldeb i ddysgwyr Cymraeg? | Ydi | Nac ydi |
| Sylwadau ychwanegol | | |
| C3 - a ydych yn cysylltu â , a hybu cyfleoedd i ddysgwyr? | Ydym | Nac ydym |
| Sylwadau ychwanegol | | |
| C4 – a ydych yn ymwneud â gweithgareddau cydweithiol gyda mudiadau neu grwpiau eraill yng Nghymru ynghlwm â dysgwyr Cymraeg? | Ydym | Nac ydym |
| Sylwadau ychwanegol | | |
| C5 – a oes cynlluniau gennych am gynaladwyedd datblygiad dysgwyr Cymraeg i'r dyfodol? | Oes | Nac oes |
| Sylwadau ychwanegol | | |
| Anhysbysrwydd<br>A hoffech i'ch atebion fod yn anhysbys? | Hoffwn | Na |
| Llofnod | | |
| Enw Mudiad/ Grŵp | | |

Anfonwch y ffurflen yn ôl i Barbara Thomas drwy e bost i b.e.thomas@btinternet.com erbyn 23ain o Chwefror 2018 . Diolch yn fawr am eich cydweithrediad.